Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Hydref, 2025

# Gweithredu diwygiadau addysg: tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae gweledigaeth gyffrous wedi cael ei chyflwyno ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru, fel gwlad fodern ddwyieithog. Un o amcanion y Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi pob dysgwr i allu cyfathrebu'n effeithiol drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Bwriad uchelgeisiol Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yw sicrhau fod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol. Mae potensial clir ar gyfer trawsnewid dyfodol ieithyddol ein pobl ifanc a'n cymdeithas er gwell.

Fodd bynnag, mae rhwystrau sylweddol rhag gwireddu'r weledigaeth hon. Mae'r heriau sy'n bygwth llwyddiant strategaeth Gymraeg arloesol Llywodraeth Cymru yn bodoli ledled Cymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r materion y mae rhieni, disgyblion ac athrawon wedi cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg yn eu cylch. Yn eu plith mae lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm, cymwysterau, a'r heriau penodol sy'n wynebu addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynir y papur hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i amlygu'r heriau dan sylw yng nghyd-destun ei ymchwiliad i weithredu diwygiadau addysg, ac i gyfleu'r angen brys i oresgyn y rhwystrau hyn. Mae'r rhain yn faterion y bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru eu datrys ar fyrder.


## 1) Cynllunio twf addysg cyfrwng Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i annog y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae tystiolaeth glir bod twf addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei lesteirio gan sawl mater.

### 1.1 Capasiti addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol

Un agwedd sy'n rhwystro twf yw diffyg capasiti addysg cyfrwng Cymraeg ac, yn gysylltiedig â hyn, ddiffyg cynllunio ymlaen llaw i ehangu'r capasiti hwnnw. Mae hyn yn cynnwys achosion o ansicrwydd y bydd adeiladau addas ar gael yn y tymor hir ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

**Ffigur 1:** Nifer yr ysgolion a gynhelir yn ôl awdurdod lleol a chyfrwng iaith ([Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion: Ionawr 2025]())



Mae'r Comisiynydd yn clywed yn gyson gan rieni a ymgeisiodd yn aflwyddiannus am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Dengys Ffigur 1 uchod mai yn y lleiafrif y mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bron pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Bwriadwyd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i fod yn gyfrwng i awdurdodau lleol gynllunio'n rhagweithiol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. Fodd bynnag, nid yw addysg cyfrwng Cymraeg yn ddewis gwirioneddol mewn llawer o ardaloedd. Mae risg yn ddi-os y bydd plant yn colli'r cyfle i gael addysg cyfrwng Cymraeg wrth aros i awdurdodau lleol ehangu'r addysg honno. Gallai hyn, yn ei dro, gael effaith hir dymor ar addysg y plant hynny a thanseilio amcanion *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg.

Fel y dengys Ffigur 2 isod, bach iawn fu'r cynnydd yng nghanran y dysgwyr blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf, mewn cyfnod o dros ddegawd. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer cyrraedd targedau *Cymraeg 2050* i gynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

**Ffigur 2:** Canran y dysgwyr ym mlwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg fel iaith gyntaf (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)

| | Canran dysgwyr blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf |
|---|---|
| 2011/12 | **22.2%** |
| 2024/25 | **24.1%** |
| Targed 2030 | **30%** |

## 1.2 Cludiant a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg

Mae anawsterau gyda chludiant a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg yn broblem ledled Cymru. Ar lefel gyffredinol, mae mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy anodd a chostus oherwydd bod llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac felly bod dysgwyr, ar gyfartaledd, yn byw ymhellach o'r ddarpariaeth hon. Ar y cyfan, mae pobl yn fwy tebygol o fyw o fewn pellter cerdded i ysgolion cyfrwng Saesneg nag i rai cyfrwng Cymraeg. Yn aml mae hyn yn golygu bod anghyfartaledd rhwng y rhai sy'n dymuno mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol hybu mynediad at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wrth ystyried sut byddant yn darparu cludiant i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yn newid trefniadau teithio mewn ffordd sy'n gwneud mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn anoddach neu'n llai fforddiadwy. Mae'r sefyllfa yn arbennig o anodd yng nghyd-destun addysg ôl-16. Tra bod awdurdodau lleol yn gorfod darparu cludiant i addysg statudol (yn dibynnu ar drothwyon pellter penodol), darperir cludiant ôl-16 ar sail disgresiwn. Mae polisïau cludiant yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, ond gwyddom nad yw nifer o awdurdodau lleol yn darparu cludiant am ddim i addysg ôl-orfodol.

Gall trefniadau cludiant gael effaith sylweddol ar ddysgwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn gynyddol arwyddocaol yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw. Gallai costau cludiant uwch olygu bod rhai teuluoedd yn penderfynu peidio â dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Yn lle hynny, gallent ddewis ysgol cyfrwng Saesneg sydd yn agosach i'w cartrefi, yn haws i'w mynychu ac yn costio llai iddynt.

O safbwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cludiant i'r ysgol yw un o'r materion mwyaf problemus y mae rhieni yn cysylltu â'r Comisiynydd yn ei gylch. Caiff heriau cyson eu nodi, yn enwedig pan fo awdurdodau lleol yn diwygio eu polisïau cludiant ysgol er mwyn gwneud arbedion. Mae risg amlwg mewn sefyllfa o'r math o danseilio ymrwymiadau a thargedau'r CSCA. Er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, mae sicrhau cludiant hwylus i ysgolion yn allweddol.

### 1.3 Y gweithlu addysg

Y mater pwysicaf ar gyfer gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth yw sicrhau gweithlu addysg â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer cyflwyno'r iaith fel pwnc ac fel cyfrwng addysg. Un o'r prif rwystrau i gynllunio uchelgeisiol i ehangu capasiti addysg cyfrwng Cymraeg yw diffyg gweithlu â'r sgiliau iaith hynny. Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor eisoes am y mater hwn yng nghyd-destun ei ymgynghoriad ar recriwtio a chadw athrawon. Datblygiad diweddar hollbwysig ym maes addysg yw Deddf y Gymraeg ac Addysg, y bydd angen ei gweithredu yn nhymor y Senedd nesaf. Mae rôl athrawon cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i'w llwyddiant.

## 2) Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Elfen hanfodol i lwyddiant y cwricwlwm newydd yng nghyd-destun y Gymraeg, a Deddf y Gymraeg ac Addysg, fydd lle'r iaith fel pwnc ac fel cyfrwng addysg yn yr ysgolion sy'n cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu mwyafrif ysgolion Cymru. Rydym wedi derbyn gwybodaeth sy'n codi pryderon am y modd y cyflwynir y Gymraeg yn rhai o'r ysgolion hyn, a chredwn y dylid craffu'n ofalus ar y sefyllfa.

Gwyddom fod ysgolion uwchradd yn cynnig llwybrau gwahanol ar gyfer astudio'r Gymraeg fel ail iaith ym Mlwyddyn 10 ac 11. Nid pob dysgwr fydd yn ymgeisio am gymhwyster TGAU a gall ysgolion ddewis llwybr gwahanol i rai disgyblion, er enghraifft, Tystysgrif Agored Cymru – Cymru, Ewrop a'r Byd.

Derbyniwn fod gan ysgolion resymau academaidd dros ddewis llwybrau astudio gwahanol ar gyfer gwahanol ddysgwyr. Fodd bynnag, rydym wedi clywed gan athrawon Cymraeg mewn rhai ysgolion sy'n pryderu na chlustnodir digon o oriau ar gyfer eu pwnc ac na osodir uchelgais digon uchel ar gyfer y dysgwyr. Mae'n destun pryder i'r Comisiynydd bod canrannau sylweddol o ddysgwyr mewn rhai ysgolion nad ydynt yn ymgeisio am gymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mewn un enghraifft a ddaeth i'n sylw, llai na hanner y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 oedd yn mynd i wneud y cymhwyster.

Mae'r *Canllawiau ar ddysgu 14 i 16* sy'n rhan o ganllawiau statudol Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn glir y bod disgwyl i ysgolion '*ystyried sut byddan nhw'n sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio ac yn gwneud cynnydd addas wrth ddysgu Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ei awdurdod lleol*'. Mae Deilliant 4 y CSCA yn uniongyrchol berthnasol yn hyn o beth: 'Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg'.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg yn adeiladu ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru a'r gyfundrefn CSCA drwy bwysleisio'r angen i ysgolion gynnig cymhwyster priodol, heriol ac uchelgeisiol i ddysgwyr, i ddangos eu cyrhaeddiad ac i hwyluso dilyniant. Dan y Ddeddf, bydd gofyn i ysgolion lunio cynllun cyflawni addysg Gymraeg. Bydd y cynllun yn dangos sut y bydd

yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â chategori iaith yr ysgol, yn ogystal â chynyddu swm yr addysg Gymraeg honno. Bydd y cynlluniau hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion.

Fodd bynnag, ni fydd y cynlluniau yn dod i rym am gryn amser. Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei derbyn yn dangos nad yw pob ysgol yn gweithredu eto yn unol ag egwyddorion strategaeth Gymraeg y Llywodraeth. Golyga hyn bod risg y bydd dysgwyr heddiw yn colli cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i'w llawn botensial. I osgoi hynny, rhaid sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu'n rhagweithiol yn y cyfamser i gefnogi cynnydd eu dysgwyr yn y Gymraeg. Byddant felly yn paratoi i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a hefyd yn cefnogi nodau'r Cwricwlwm i Gymru a strategaeth *Cymraeg 2050*.


## 3) Y Gymraeg fel pwnc safon uwch

Yn dilyn o'r drafodaeth uchod am y Gymraeg ar lefel TGAU, rhaid tynnu sylw at sefyllfa'r pwnc ar lefel Safon Uwch. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith, fel y dengys Ffigur 3 isod.

Yn 2008/9 roedd 304 o ddysgwyr yn astudio Safon Uwch Cymraeg a 489 yn astudio Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith. Erbyn 2023/24 roedd y ffigyrau wedi gostwng i 207 yn astudio Cymraeg a 111 yn astudio Cymraeg Ail Iaith. Yn ôl data CBAC, rhwng 2015/16 a 2023/24 cwympodd nifer y canolfannau sy'n cynnig Safon Uwch Cymraeg o 48 i 45. Yn ystod yr un cyfnod, cwympodd nifer y canolfannau sy'n cynnig Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith o 71 i 55.[1]

[1] Archif Ystadegau Canlyniadau

**Ffigur 3:** Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith (disgyblion 17 oed yn unig) (StatsCymru)




Mae hyn yn destun pryder mawr, yn enwedig yng nghyd-destun amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg, a'r angen i gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a fydd yn gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y dyfodol. Heb ddigon o athrawon â sgiliau Cymraeg, bydd rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith.

Mae nifer o benaethiaid adrannau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi cysylltu â'r Comisiynydd yn mynegi eu pryder ynghylch sefyllfa Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith. Mae'r athrawon yn nodi bod sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc ar ôl TGAU wedi bod yn fregus ers cryn amser, ond bod y sefyllfa yn gwaethygu.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal gweithgareddau penodol i gefnogi'r Gymraeg fel pwnc. Fodd bynnag, mae'r gwaith pwysig mae'r Coleg yn ei wneud i farchnata a hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc yn cael ei danseilio gan benderfyniadau strategol sydd â llawer mwy o ddylanwad. Mae penderfyniadau fel y canlynol yn tanseilio'r ymdrechion sydd ar waith i hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel pwnc:

- peidio â chynnig y pwnc mewn ysgolion
- cynnig y pwnc ar lein yn unig
- amserlennu'r pwnc mewn ffordd sy'n ei wneud yn anoddach neu'n llai tebygol y bydd dysgwyr yn ei ddewis.

Ym mis Mawrth 2024 cyhoeddwyd *Gwerthusiad o Gynlluniau Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc*. Dylid ystyried argymhellion y gwerthusiad hwn ar fyrder, gan gynnwys yn benodol argymhelliad 4: 'Dylid bod gorfodaeth ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod darpariaeth Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar gael i bob dysgwr o fewn eu canolfannau ôl-16.' Fel mae'r gwerthusiad yn ei amlygu, mae angen ystyried ystod o ymyraethau gwahanol er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel pwnc, ond mae angen sylw yn y lle cyntaf i sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis hawdd a hygyrch i bob dysgwr. Rhaid dileu'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag astudio'r iaith, a chyllido cyrsiau Cymraeg heb fod angen dibynnu ar leiafswm o ddysgwyr i gyfiawnhau cynnal y cyrsiau hynny.